Rhif: WG27538

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cynnig i gofrestru gweithwyr ieuenctid

Cynnig i gofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Dyddiad cyhoeddi: 8 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Mawrth 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

# Cynnig i gofrestru gweithwyr ieuenctid

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn gwahodd barn ar gynigion i ehangu swyddogaethau a rôl Cyngor y Gweithlu Addysg. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Mawrth 2016** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gael yn http://gov.wales/about/programmeforgov/?skip=1&lang=cy |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Nathan Huish<br>Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol<br>Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 029 2082 3039 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. |

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 2 |
| 1. Cefndir | 2 |
| 2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg | 2 |
| 3. Cyflwyniad | 3 |
| 4. Rhesymau dros newid | 3 |
| 5. Cofrestru | 5 |
| 6. Cynnig dan ystyriaeth | 5 |
| 7. Sut i wneud sylwadau ar y cynnig hwn | 7 |

## Crynodeb

Roedd Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Deddf 2014) yn ad-drefnu ac yn ailenwi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (‘CyngACC’); yn estyn cylch gorchwyl y corff; ac yn diwygio cyfansoddiad aelodaeth y Cyngor, er mwyn creu Cyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”). Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2015, sef yr un dyddiad ag y cafodd y gofyniad i reoleiddio gweithwyr proffesiynol ei ymestyn i athrawon Addysg Bellach yn ogystal ag athrawon ysgol. O fis Ebrill 2016, bydd cofrestru’n cael ei ymestyn i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion/AB.

Y cynnig yw, o fis Ebrill 2017, y bydd rhaid i unigolion gofrestru gyda’r Cyngor er mwyn gallu gweithio mewn rhai meysydd o Waith Ieuenctid yng Nghymru. Mae’r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ar gynigion Llywodraeth Cymru i gofrestru gweithwyr ieuenctid yng Nghymru.

## 1. Cefndir

1.1 Er i Lywodraeth Cymru fynd ati i nodi’r proffesiynau yr oedd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda’r Cyngor (o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2014), nid oedd hyn yn golygu na fyddai modd cofrestru grwpiau eraill yn y dyfodol, fel Gweithwyr Ieuenctid ac ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith; sydd hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at addysg a hyfforddiant ein plant a phobl ifanc. Mae Deddf 2014 yn creu fframwaith sy’n galluogi Llywodraeth Cymru i ychwanegu categorïau cofrestru newydd, os a phan mae’n briodol; ac yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.2 Mae’n hollbwysig bod yr holl ymarferwyr gwahanol hyn yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol ac yn gallu manteisio ar gymwysterau, cymorth a datblygiad sydd wedi’u cynllunio’n dda. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau ein bod yn cydnabod rôl pawb sy’n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynol yng Nghymru.

## 2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg

Nodau statudol y Cyngor yw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru; ac,
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon ac eraill yn y gweithlu addysg sy’n cynorthwyo addysgu a dysgu;

## 3. Cyflwyniad

3.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol ar hyn o bryd i greu a chadw cofrestr o athrawon ysgol, athrawon AB a gweithwyr cymorth dysgu ysgolion/AB. Rhaid iddynt gofrestru yn y pedwar categori er mwyn gallu gweithio mewn ysgolion a gynhelir neu sefydliadau AB yng Nghymru, yn cynnwys athrawon peripatetig ac athrawon mewn swyddi asiantaeth, cyflenwi neu dros dro. Rhaid i bob cyflogwr sicrhau mai dim ond pobl sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor sy'n cael eu cyflogi.

3.2 Nid oes rhaid i Weithwyr Ieuenctid gofrestru gydag unrhyw gorff cofrestru ar hyn o bryd.

## 4. Rhesymau dros newid

4.1 Yn ystod ymgynghoriad 2012 ar 'gynigion i ddiwygio'r gofyniad i gofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru'[1], roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r sector gweithwyr ieuenctid o blaid cofrestru gyda chorff statudol priodol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylid gwneud cofrestru'n orfodol i weithwyr ieuenctid gwirfoddol, gan y gallai hyn atal gwirfoddolwyr rhag ymuno â'r sector; gyda'r ffi gofrestru yn rhwystr ychwanegol.

4.2 Teimlwyd y bydd cysylltiad â chorff rheoleiddio yn cyflwyno nifer o fanteision, fel system reoleiddio a chofrestru briodol a fydd yn sicrhau ansawdd a phroffesiynoldeb yr unigolion sy'n cael eu cyflogi fel gweithwyr ieuenctid. Awgrymwyd hefyd y byddai cofrestru'n mynd i'r afael â phroblem a oedd wedi bodoli ers tro, sef pobl yn galw'u hunain yn weithwyr ieuenctid er nad oedd ganddynt gymhwyster priodol mewn gwaith ieuenctid neu er nad oedd eu hymarfer yn cyd-fynd â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (2012).

4.3 Yn ôl Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid (2012) (SGC), pwrpas allweddol gwaith ieuenctid yw:

- galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda hwy i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u safle mewn cymdeithas i gyrraedd eu llawn botensial

Mae'r SGC yn berthnasol i holl wledydd y DU.

4.4 Mae gwaith ieuenctid yn ychwanegu gwerth at fywydau'r holl bobl ifanc mae'n ymwneud â nhw, gan eu helpu gyda newidiadau mawr ac anodd yn eu bywydau a meithrin sgiliau a rhinweddau parhaol. Yn arbennig, gall effeithio ar fywydau pobl ifanc sy'n agored i niwed neu dan anfantais, neu sy'n ei chael hi'n anodd addasu i ofynion sefydliadau addysgol ffurfiol. Trwy ei ddull cyflenwol, mae gwaith ieuenctid yn gallu helpu i fagu hyder, rhoi esiamplau, agor y drws i gyfleoedd newydd a rhoi ymdeimlad o berthyn i bobl ifanc.

[1] http://gov.wales/consultations/education/workforceregistration/?skip=1&lang=cy

4.5 Mae gwaith ieuenctid wedi bod yn gwella bywydau pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Yn anad dim, proses addysgol a datblygiadol yw gwaith ieuenctid, sy'n seiliedig ar gyfranogiad gweithgar a gwirfoddol pobl ifanc a'u hymroddiad. Mae'n cynnig addysg bersonol, gymdeithasol a gwleidyddol i bobl ifanc. Mae'n seiliedig ar 'ddull addysgol heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol', cyflenwol. Mae gwaith ieuenctid ar gael i bob person ifanc o fewn y grŵp oed penodol sef 11 i 25 oed. Mae gwaith ieuenctid da yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc wella'u cyfleoedd mewn bywyd.

4.6 Cafwyd datganiad clir gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn 'Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru 2014 - 2018' fod gan waith ieuenctid o safon uchel rôl hollbwysig i'w chwarae o ran helpu llawer o bobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn. Drwy ddulliau addysgol anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, mae arfer gwaith ieuenctid effeithiol yn meithrin gallu a gwydnwch pobl ifanc a gall newid bywydau pobl ifanc er gwell. Drwy gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid mae pobl ifanc yn meithrin hyder a chymhwysedd, yn datblygu hunanhyder ac yn cael cyfle i bennu disgwyliadau a dyheadau uchel iddynt eu hunain.

4.7 Mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddarparu gan y sectorau gwirfoddol ac awdurdod lleol a thrwy amrywiaeth o leoliadau a dulliau gwaith ieuenctid. Gall gweithwyr ieuenctid fod yn weithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr a gallant weithio'n llawn amser neu'n rhan-amser.

4.8 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod pob person ifanc yn uchelgeisiol, yn hyderus, yn gallu cyfrannu'n effeithiol, yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn ddinasyddion cyfrifol; a'u bod yn cael eu meithrin, eu bod yn ddiogel, yn weithgar, yn iach, yn cyflawni, yn cael eu cynnwys, yn cael eu parchu ac yn gyfrifol. Credwn fod gan waith ieuenctid gyfraniad sylweddol i'w wneud at wireddu'r weledigaeth hon ar gyfer pobl ifanc.

4.9 Mae gwerthoedd gwaith ieuenctid yn cyd-fynd â phwrpas addysg ac maent yn hollbwysig i'r broses, gan hybu hyder unigolion, eu cyfraniad at gymdeithasol, a'u gwerth fel dinasyddion.

4.10 Mae'n amlwg y gall ymarfer gwaith ieuenctid gefnogi canlyniadau dysgu pobl ifanc yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn effeithiol ac mae cael cydweithio agosach rhwng ysgolion, colegau a sefydliadau gwaith ieuenctid yn sicrhau manteision sylweddol i bobl ifanc.

4.11 Mae gweinidogion yn cydnabod bod gwaith ieuenctid yn broffesiwn medrus ac maent am gynyddu gwerth a statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth a phroffesiwn.

## 5. Cofrestru

5.1 Mae Deddf 2014 yn cynnwys darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y gofyniad i gofrestru gyda'r Cyngor i grŵp ehangach o ymarferwyr.

5.2 Nodwedd allweddol sawl proffesiwn yw gofyniad i gofrestru gyda chorff rheoleiddio proffesiynol sy'n pennu ac yn cynnal safonau proffesiynol, yn sicrhau hyder y cyhoedd ac yn arddangos ymrwymiad cyffredin i broffesiynoldeb.

5.3 Manteision cofrestru yw y bydd y rhai sydd wedi cofrestru yn cael eu hystyried yn:

- aelodau credadwy o'r gweithlu â statws proffesiynol;
- weithwyr sy'n bodloni'r gofynion penodol ar gyfer ymuno â'r proffesiwn ac aelodaeth barhaus o'r proffesiwn; ac
- yn addas i fod yn aelodau o'r proffesiwn – gan ennyn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

5.4 Bydd cofrestru Gweithwyr Ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn cryfhau eu proffil mewn ffyrdd cefnogol, yn hytrach na mewn ffyrdd sy'n cael effaith negyddol ar yr amrywiaeth sy'n amlwg yn y sector. Byddwn yn cydnabod gwerth gwaith ieuenctid a chyfraniadau gweithwyr ieuenctid i fywydau pobl ifanc. Byddwn yn cydnabod cyfraniad gweithwyr ieuenctid at helpu pobl ifanc i barhau i gymryd rhan a chamu ymlaen yn eu haddysg a hyfforddiant ffurfiol hefyd.

5.5 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ymgynghoriad at gynigion i gofrestru'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru. Roedd mwyafrif helaeth yn cytuno y dylai bod gofyn i grwpiau eraill yn y sector addysg gofrestru; ac y dylent dalu ffi am gael cofrestru.

5.6 Mae'r gofyniad i gofrestru yn y gweithlu addysg yr un fath â'r gofyniad gydag unrhyw gorff cofrestru arall, fel nyrsys, bydwragedd a ffisiotherapyddion. Mae gweithwyr proffesiynol yn y sectorau hynny yn gorfod talu am gofrestru fel un o'u gofynion cyflogaeth hefyd.

## 6. Cynnig dan ystyriaeth

6.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y categori newydd arfaethedig o ddarparwyr gwasanaethau yn y sector gweithwyr ieuenctid y bydd gofyn iddynt gofrestru gyda'r Cyngor o 1 Ebrill 2017.

6.2 Yn y lle cyntaf, dim ond ar gyfer dwy swydd y mae Llywodraeth Cymru'n ystyried cyflwyno gofyniad i gofrestru ar hyn o bryd, sef:

- Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol sy'n cael ei gydnabod gan y Cyd-bwyllgor Negodi (JNC)[2] sy'n cael ei gyflogi gan awdurdod lleol, ysgol, coleg, neu'r sector gwirfoddol, a
- Gweithiwr Cymorth Ieuenctid sy'n cael ei gydnabod gan y Cyd-bwyllgor Negodi (JNC) sy'n cael ei gyflogi naill ai gan awdurdod lleol, ysgol neu goleg yng Nghymru; ac sy'n helpu i gyflawni gwaith ieuenctid a chymunedol gweithredol.

Diffinnir Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol fel rhywun sydd wedi cwblhau'r cymwysterau cymeradwy/perthnasol mewn gwaith ieuenctid neu astudiaethau cymunedol yn llwyddiannus. Byddant yn cynnwys y cymwysterau gwaith ieuenctid ar lefel broffesiynol canlynol:

- BA (Anrh): llawn amser am dair blynedd  a chyfwerth yn rhan-amser – lefel 6
- Diploma Ôl-radd: llawn amser am flwyddyn a chyfwerth yn rhan-amser – lefel 7
- MA: blwyddyn a chyfwerth yn rhan-amser – lefel 7
- Diploma i Raddedigion: dwy flynedd yn llawn amser – lefel 6

Diffinnir Gweithiwr Cymorth Ieuenctid fel rhywun sydd wedi cwblhau cymhwyster mewn ymarfer gwaith ieuenctid, yn cynnwys:

- Dyfarniadau Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid.
- Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid
- Diploma Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid

<u>* Cymwysterau rhagflaenol</u>

6.3 Mae yna nifer fach o gymwysterau eraill sy'n rhoi statws gweithiwr ieuenctid cymwysedig.

- Mae pobl a enillodd statws athro cymwysedig cyn 31 Rhagfyr 1988 yn cael eu hystyried yn gymwysedig i wneud swyddi gwaith ieuenctid proffesiynol.
- Bydd pobl a enillodd radd mewn gwyddor gymdeithasol rhwng 1974 a 1981 yn cael eu hystyried yn gymwysedig yn amodol ar oruchwyliaeth a pherfformiad boddhaol yn y gweithle am flwyddyn, sydd wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol.
- Diploma mewn Addysg uwch a oedd ar gael cyn 2010.

Gweithwyr Cymorth Ieuenctid

- Tystysgrif a Diploma lefelau 2 a 3 NVQ/VRQ.
- Cwrs Sylfaen (Lefel 4) Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru.
- Tystysgrif Addysg Uwch Coleg Prifysgol Casnewydd.

---

[2] Y Cyd-bwyllgor Negodi (JNC) ar gyfer gweithwyr ieuenctid a chymunedol yw'r corff sy'n pennu'r fframwaith cenedlaethol a ddefnyddir i raddio a thalu swyddi gwaith ieuenctid. Mae'r JNC yn cydnabod cymwysterau gweithwyr ieuenctid a chymunedol sydd wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan Safonau Hyfforddiant Addysg (ETS) Cymru (neu gyrff ETS eraill yn y DU). Mae enill cymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo'n sicrhau ei fod yn gymhwyster o ansawdd ac addas i'r diben. Gellir gweld rhestr o'r rhaglenni sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd yn: http://www.etswales.org.uk/home.php?page_id=5153

- Rhaglenni CBAC sydd wedi’u cytuno’n lleol, fel y cwrs 'Bessey' sydd ar gael mewn awdurdodau lleol.

*Enghreifftiau yw’r cymwysterau hyn, a dylai gweithwyr cyflogedig ofyn am gyngor gan y corff perthnasol (un o bwyllgorau ETS y pum gwlad) i weld a yw cymhwyster yn ddilys.

6.4 Nid yw Llywodraeth Cymru am i’r cynnig polisi hwn effeithio ar wirfoddolwyr sy’n aberthu eu hamser rhydd i weithio yn y sector. Fodd bynnag, gall yr ymarferwyr hyn ddewis cofrestru, ar yr amod eu bod yn bodloni’r meini prawf cofrestru; a chyn belled â’u bod yn fodlon talu’r ffi gofrestru (bydd ymgynghoriad ar wahân ar y ffi, ynghyd â’r strwythur ffioedd ar gyfer y gweithlu addysg ehangach).

6.5 Fel yn achos gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion/AB, bydd y Cyngor yn gwneud cyfraniad allweddol ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru o ran nodi pa ddarparwyr gwasanaethau y bydd gofyn iddynt gofrestru, cyn mis Ebrill 2017.

## 7. Sut i wneud sylwadau ar y cynnig hwn

7.1 Ceir cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb, a gwahoddir chi i ddarparu atebion i'r cwestiynau hyn neu roi sylwadau mwy cyffredinol, naill ai yn ysgrifenedig neu mewn print, yn electronig neu ar ffurf copi caled i'r cyfeiriad a nodir ar ddechrau'r ddogfen hon.